


# Pecyn Addysg Mudo

BRITISH COUNCIL

The Commonwealth

# Cyflwyniad

‘Ar 22 Mehefin 1948 hwyliodd llong y *Windrush* i’w lle mewn hanes...cyn ac ar ôl y foment hanesyddol hon, a hyd yn oed ar yr un pryd, roedd yr un math o ddyfodiad yn digwydd mewn rhannau eraill o’r byd, wrth i boblogaethau sefydlog symud, wedi’u gyrru gan bob math o angen.’


**Mike Phillips a Trevor Phillips**

## Beth yw mudo?

Mudo yw symudiad pobl o un lle i le arall. Gall y rhesymau dros fudo fod yn rhai economaidd, cymdeithasol neu wleidyddol. Mae mudo yn effeithio ar y lle y bydd pobl yn ei adael, ac ar y lle y byddan nhw’n mynd iddo.

Mae pobl wedi bod yn dod i ymgartrefu yng ngwledydd Prydain ers miloedd o flynyddoedd. Ar achlysur 70 mlynedd ers i long yr **Empire Windrush** gyrraedd Dociau Tilbury yn Essex ym mis Mehefin 1948, mae’r pecyn addysg hwn yn cofio ac yn dathlu cyfraniad y bobl wnaeth fudo o’r Caribî i ffyniant gwledydd Prydain, ynghyd â’r cyfraniad y mae pobl eraill sy’n mudo yn parhau i’w wneud i wledydd Prydain yn ogystal â gwledydd eraill hefyd.

Mae’r pecyn yn cynnwys gwybodaeth gefndirol, syniadau ar gyfer trafodaethau, a gweithgareddau trawsgwricwlaidd. Mae cysylltiadau â phynciau’r cwricwlwm, sgiliau craidd a gwerthoedd y Gymanwlad, ynghyd ag awgrymiadau am weithgareddau y gallech eu cynnal gyda’ch dosbarth neu ar y cyd ag ysgol bartner dramor. Gellir defnyddio’r gweithgareddau fel man cychwyn i wersi unigol neu fel elfennau o brosiectau trawsgwricwlaidd ar y cyd mwy er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, ynghyd â sgiliau a chymwyseddau pwysig, sy’n allweddol i bobl ifanc sy’n datblygu’n ddinasyddion byd-eang yr unfed ganrif ar hugain.



Yr Empire Windrush h. Amgueddfa Ryfel Imperialaidd

**Cysylltiadau â’r Cwricwlwm:** Cymraeg, Saesneg, Hanes, Dinasyddiaeth, addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd.

**Gwerthoedd y Gymanwlad:** Goddefgarwch, parch a dealltwriaeth, hawliau dynol.

**Sgiliau Craidd:** Cydweithio a chyfathrebu, dinasyddiaeth.

Llun y clawr: teithwyr ar long y Windrush yn 1948 h. Getty Images.

# Gwybodaeth gefndir i'w rhannu â'ch disgyblion yn y wers neu yn y gwasanaeth

## Delwedd 1

**Note:** Mae'r holl ddelweddau a gaiff eu hatgynhyrchu ar gael fel dalen i'w rhannu yn yr Atodiad

Cyrhaeddodd llong yr Empire Windrush y dociau yn Tilbury yn Essex ar 22 Mehefin 1948 yn cludo dros 500 o bobl oedd yn mudo o'r Caribî. Defnyddiwyd y llong gan y Natsïaid yn yr Ail Ryfel Byd i gludo milwyr cyn cael ei gipio gan luoedd y Cynghreiriaid ym mis Mai 1945. Yna cafodd ei adnewyddu gan Brydain at ddefnydd sifilaidd. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd daeth miloedd o ddynion a menywod o'r trefedigaethau Prydeinig yn y Caribî i ymladd dros y Cynghreiriaid, ac roedd y llong yn y Caribî oherwydd roedd yno i gludo milwyr a fu yno am seibiant o'r gwaith. Roedd y teithwyr ar y Windrush hefyd yn cynnwys dynion, menywod a phlant o'r Caribî o gefndiroedd amrywiol gan gynnwys rhai oedd â'u gwreiddiau yn Tsieina, Malta a Gwlad Pwyl, gan gynnwys rhai teithwyr cudd answyddogol.




Yr Empire Windrush yn cyrraedd Doc Llundain yn Tilbury h. Getty Images

## Delwedd 2

Yn 1948, roedd gan unrhyw un oedd yn byw yn un o drefedigaethau Prydain yr hawl i deithio i wledydd Prydain i fyw ac i weithio yno os oedden nhw'n dymuno. Roedd llawer o bobl yn Jamaica wedi ymateb i erthygl ym mhapur newydd The Daily Gleaner, oedd yn cynnig eu cludo nhw i Brydain am £28.10s er mwyn dod i weithio ym Mhrydain, oedd wedi cael ei difetha yn sgil y rhyfel. Wrth wneud hyn, fe ddechreuon nhw daith a fu'n gyfrifol am lunio hanes Prydain fodern.



## Delwedd 3

Pan gyrhaeddodd y mudwyr newydd o’r Caribî, roedd yn weddol hawdd iddyn nhw ddod o hyd i swyddi di-grefft ym Mhrydain, ond roedd hi’n anodd dod o hyd i rywle i fyw oherwydd prinder tai ar ôl y rhyfel. Roedd yr amodau’n anodd iawn, a chawsant eu trin yn wael yn aml.



Mudwyr o’r Caribî gyda bysys Llundain h. Amgueddfa Ryfel Imperialaidd. Cafodd llawer o deithwyr y Windrush swyddi gyda system drafnidiaeth Llundain

## Pwyntiau trafod:

- Beth ydych chi'n credu roedd pobl oedd yn dod o'r Caribî ar y Windrush yn disgwyl ei weld pan gyrhaeddon nhw?
- Ydych chi'n credu eu bod nhw wedi cael syndod?



Mudwyr o'r Caribî yn chwarae snwcer h. Amgueddfa Ryfel Imperialaidd

## Pethau i'w trafod gyda phartner:

Edrychwch ar luniau'r teithwyr ar y sleidiau ac o wefan oriel Sefydliad y Windrush: **http://www.windrushfoundation.org/gallery-2/** a dewiswch un llun.

- Rhestrwch bopeth allwch chi ei weld yn y llun
- Allwch chi ddisgrifio beth mae pobl yn ei wisgo ac yn ei wneud?
- Ble rydych chi'n credu gafodd y llun ei dynnu a pham?
- Beth mae hyn yn ei ddweud wrthych chi am y cyfnod yma mewn hanes?
- Sut rydych chi'n credu roedden nhw'n teimlo ar y pwynt yma yn eu bywydau?

## Ymchwil

Roedd y cyfnod ar ôl rhyfel yn y 1940au hwyr yn gyfnod o newid aruthrol ar draws y byd. Gofynnwch i'ch disgyblion ddod o hyd i'r hyn y gallan nhw am ddigwyddiadau eraill oedd yn digwydd yn ystod y cyfnod hwn, a chofnodi'r wybodaeth ar linell amser fawr o amgylch yr ystafell ddosbarth.




h. Amgueddfa Ryfel Imperialaidd

## Rhannwch eich stori

**Mae sawl rheswm pam mae pobl yn mudo, ond mae stori i'w chael bob amser gan bawb dan sylw.**

Yn ôl Karen McKenzie, Pennaeth Hawliau Dynol yn Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad, "Mae llawer o bobl yn mudo er mwyn dianc rhag amddifadedd ofnadwy, neu i chwilio am gyfleoedd economaidd ac i ennill bywoliaeth well. Mae eraill yn symud i gwblhau eu hastudiaethau neu i ymuno â'u teuluoedd."

Ychwanegodd: "I nifer sylweddol o bobl, nid dewis yw mudo, ond rhywbeth maen nhw'n cael eu gorfodi i'w wneud, yn erbyn eu hewyllys. Mae rhai yn dianc rhag rhyfel, neu erledigaeth, ac eraill yn gadael oherwydd difrod trychineb naturiol, neu eraill yn ddioddefwyr yn sgil masnachu pobl."

Trafodwch gefndiroedd diwylliannol pobl yn eich dosbarth, eich ysgol a'r ardal leol gyda'ch disgyblion. A gafodd eich disgyblion eu geni yn yr ardal leol? A gafodd eu rhieni neu eu neiniau a'u teidiau eu geni yno? Os na, ble roedden nhw'n byw cyn hynny? Pa wledydd allai fod yn rhan o stori eu teuluoedd? Dewch o hyd i lefydd y mae gan eich disgyblion a'u teuluoedd gyswllt â nhw ar fap neu glôb a gwnewch arddangosfa i ddangos hyn.

Argraffwch y ddalen gweithgaredd ar gerdyn (neu ar bapur a'i gludo ar gerdyn) a thorrwch allan y datganiadau unigol. Rhannwch eich dosbarth yn grwpiau a rhowch set o ddatganiadau i bob grŵp. Gofynnwch i bob aelod o'r grŵp ddewis y cerdyn sydd fwyaf addas ar gyfer eu 'stori' mudo nhw.

Ar gyfer dysgu yn y cartref, gofynnwch i bob aelod geisio dod o hyd i fwy o fanylion am y teulu y gallan nhw eu defnyddio i ysgrifennu am 'stori'r teulu'.

Yn y wers nesaf, gofynnwch i aelodau'r grŵp rannu'r hyn maen nhw wedi'i ddarganfod gyda'i gilydd, a rhestru pethau sy'n debyg a phethau sy'n wahanol rhwng y straeon yn y grŵp. Ychwanegwch y wybodaeth yma at yr arddangosfa.

**Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:** Cymraeg, Saesneg, Hanes, Dinasyddiaeth, addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd.

**Gwerthoedd y Gymanwlad:** Goddefgarwch, parch a dealltwriaeth, hawliau dynol.

**Sgiliau Craidd:** Cydweithio a chyfathrebu, dinasyddiaeth.


# Dalen gweithgaredd

| | |
|---|---|
| **Roedd/Mae fy nain a thaid yn fudwyr**<br>• O ble y daethon nhw?<br>• Sut gwnaethon nhw deithio?<br>• Beth oedd eu rhesymau? | **Roedd/Mae fy rhieni yn fudwyr**<br>• O ble y daethon nhw?<br>• Sut gwnaethon nhw deithio?<br>• Beth oedd eu rhesymau? |
| **Roedd/Mae fy nhaid yn fudwr**<br>• O ble y daeth e?<br>• Sut gwnaeth e deithio?<br>• Beth oedd ei resymau? | **Roedd/Mae fy nhad yn fudwr**<br>• O ble y daeth e?<br>• Sut gwnaeth e deithio?<br>• Beth oedd ei resymau? |
| **Roedd/Mae fy nain yn fudwr**<br>• O ble y daeth hi?<br>• Sut gwnaeth hi deithio?<br>• Beth oedd ei rhesymau? | **Roedd/Mae fy mam yn fudwr**<br>• O ble y daeth hi?<br>• Sut gwnaeth hi deithio?<br>• Beth oedd ei rhesymau? |
| **Rydw i'n fudwr**<br>• O ble y daethost ti?<br>• Sut gwnest ti deithio?<br>• Beth oedd dy resymau? | **Does neb yn fy nheulu yn fudwr**<br>• Ers faint rydych chi wedi byw yn yr ardal?<br>• Ydy eich teulu a'ch cefndryd yn byw yn agos? |
| **Roedd/Mae fy mam fedydd yn fudwr**<br>• O ble y daeth hi?<br>• Sut gwnaeth hi deithio?<br>• Beth oedd ei rhesymau? | **Roedd/Mae fy nghefnder/nghyfnither yn fudwr**<br>• O ble y daeth e/hi?<br>• Sut gwnaeth e/hi deithio?<br>• Beth oedd ei resymau/ei rhesymau? |
| **Roedd fy hen nain a thaid yn fudwyr**<br>• O ble y daethon nhw?<br>• Sut gwnaethon nhw deithio?<br>• Beth oedd eu rhesymau? | **Roedd/Mae fy rhieni wnaeth fy mabwysiadu i yn fudwyr**<br>• O ble y daethon nhw?<br>• Sut gwnaethon nhw deithio?<br>• Beth oedd eu rhesymau? |
| **Roedd/Mae fy ewythr yn fudwr**<br>• O ble y daeth e?<br>• Sut gwnaeth e deithio?<br>• Beth oedd ei resymau? | **Roedd/Mae fy modryb yn fudwr**<br>• O ble y daeth hi?<br>• Sut gwnaeth hi deithio?<br>• Beth oedd ei rhesymau? |
| **Roedd/Mae fy llys frawd yn fudwr**<br>• O ble y daeth e?<br>• Sut gwnaeth e deithio?<br>• Beth oedd ei resymau? | **Roedd/Mae fy llys chwaer yn fudwr**<br>• O ble y daeth hi?<br>• Sut gwnaeth hi deithio?<br>• Beth oedd ei rhesymau? |

Mae'r gweithgaredd hwn yn seiliedig ar syniad gan Marion Carty o Brifysgol Goldsmiths.

# Straeon mudo

**Mae'r artist Sophie Herxheimer yn cyfweld â mudwyr ac yn cofnodi eu straeon mudo mewn geiriau a lluniau mewn inc. Dyma rai enghreifftiau o'i gwaith am 'gartref'.**




All eich disgyblion chi ddarlunio rhai o'u straeon mudo gyda geiriau a lluniau?

Os ydych chi'n gweithio gydag ysgol bartner, gallech dynnu ffotograffau o arddangosfeydd eich dosbarth a chyfnewid gwybodaeth am eich straeon teulu.







Lluniau inc gyda chaniatâd gan Sophie Herxheimer.

# Barddoniaeth

Gwyliwch y clip o John Agard yn darllen ei gerdd *Windrush Child* yn **https://vimeo.com/34658318**. Ganed John Agard yn Guyana a chafodd Fedal Aur y Frenhines ar gyfer Barddoniaeth ar gyfer rhagoriaeth mewn barddoniaeth yn 2012.

Roedd ei gerdd yn deyrnged i Vince Reid, a oedd yn 13 oed, ymhlith y teithwyr ieuengaf ar fwrdd y Windrush. Gofynnwch i'ch disgyblion drafod yr hyn maen nhw'n ei feddwl am y gerdd. A oedd unrhyw beth roedden nhw'n ei hoffi'n benodol? Pa ddelweddau oedd yn eu taro nhw o ran rhoi syniad o'r cartref mae'r bachgen yn ei adael ar ei ôl?

Yn y gerdd mae John Agard yn defnyddio'r ymadroddion arddodiadol hyn i ddechrau pob pennill newydd:

Behind you...

Above you...

Around you ...

Beside you...

Gofynnwch i'ch disgyblion edrych eto ar y lluniau o ddelweddau o Brydain wedi'r rhyfel ac ysgrifennu pedair pennill fer ychwanegol yn disgrifio profiadau plentyn y Windrush yn ystod ei ddyddiau cyntaf ym Mhrydain gan ddefnyddio'r un ymadroddion:

Tu ôl i chi...

Uwch eich pen...

O'ch cwmpas ...

Wrth eich ochr ...

Mae'r gerdd hefyd yn cynwys llinell sy'n atgoffa'r plentyn i feddwl am ei Nain yn ôl yn Jamaica ac i ysgrifennu llythyr am ei antur ar y Windrush. Gofynnwch i'ch disgyblion drafod beth maen nhw'n ei feddwl y byddai'n ei ysgrifennu yn y llythyr hwnnw, a'i ddrafftio.




Pobl yn mudo o'r Caribî ar y ffordd o Lundain i Lerpwl h. Amgueddfa Ryfel Imperialaidd

Un o deithwyr eraill y Windrush oedd Oswald 'Columbus' Dennison. Ysgrifennodd yntau am y profiad o gyrraedd ar y Windrush.

Dyma sut mae'n disgrifio'r profiad yn ei gerdd *Windrush* Poem:

***'It was 1948 on the Windrush ship***

***500 men from the Caribbean was on it***

***From warm Caribbean sand, to this cold English land.***

***We spent twenty eight day on the ship and everyone felt***

***real sick, couldn't take the tossing of the Windrush ship.'***

Darllennwch y disgrifiad yma a thrafodwch y cwestiynau canlynol gyda phartner:

- Beth ydych chi'n ei feddwl am y darn hwn o ysgrifennu?
- Ym mha ffordd y mae'n debyg ac yn wahanol i gerdd John Agard?

Mae'n mynd ymlaen i ddisgrifio'r profiad o ddocio fel hyn:

***'When we heard land ahoy, everyone packed up their one little grip [suitcase].***

***The ship docked at Tilbury, everyone began to feel merry setting foot in the mother country.***

***Looking round it wasn't jolly, not what we imagined.***

***The scene was drab and gloomy with plenty of chimneys that looked like factories.***

***And so we stepped on the hallowed British soil, and looked forward to a future we dreamt would be better.'***

Dewiswch rai geiriau ac ymadroddion sy'n disgrifio argraffiadau cyntaf y bardd o Brydain. Ydy hi'n farn ffafriol? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?

Pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn i'r bardd petai gennych chi gyfle?

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Gofynnwch iddyn nhw bortreadu grŵp o deithwyr ar y Windrush wrth i'r llong gyrraedd Dociau Tilbury. Ar eich arwydd, cyffyrddwch â phob person ar ei ysgwydd a gofynnwch iddyn nhw ddatgelu beth mae'r cymeriad maen nhw'n ei bortreadu yn ei feddwl ar yr union foment yna mewn amser.

Mae'r darn yn y gerdd yn dweud bod gan bob teithiwr 'grip' neu fag. Yn 2015, roedd yr arddangosfa 'Home to Home' a lansiwyd yng Ngharnifal Caribîaidd Nottingham, yn dangos bagiau oedd yn cynnwys enghreifftiau o'r math o bethau roedd pobl y Windrush wedi dod â nhw.

Gofynnwch i'r disgyblion beth maen nhw'n ei feddwl y gallai dyn, menyw neu blentyn fod wedi dod â nhw yn ei fag. Neu, fe allwch chi ddod â chês bach i'r dosbarth sy'n cynnwys rhai gwrthrychau a allai fod yn eiddo i deithiwr ar y Windrush. Gallech gynnwys tocyn, rhywbeth bach i'w hatgoffa o'u cartref, llyfr, ffotograff, gêm neu dlysau. Gofynnwch i'ch disgyblion fod yn dditectifs hanes a defnyddio'r gwrthrychau fel cliwiau i geisio adnabod rhai agweddau ar bwy oedd y teithiwr.

Er enghraifft, gallech chi holi'r cwestiynau hyn.

1. Ydych chi'n credu mai dyn neu ddynes yw'r teithiwr? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
2. Pa swydd oedd ganddyn nhw tybed?
3. Pam rydych chi'n credu eu bod wedi dod i Brydain?
4. Pa wrthrychau fyddai wedi bod yn arbennig iawn iddyn nhw yn eich barn chi?

Ydych chi'n credu y byddai'n disgrifio'r hyn oedd yn ei wynebu wrth gyrraedd go iawn neu beidio?

**Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:** Cymraeg, Saesneg, Hanes, Dinasyddiaeth, addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd.

**Gwerthoedd y Gymanwlad:** Goddefgarwch, parch a dealltwriaeth, hawliau dynol.

**Sgiliau Craidd:** Creadigrwydd a dychymyg, cydweithio a chyfathrebu.

# Rhesymau dros fudo

Cafodd y bobl a gyrhaeddodd ar y Windrush wahoddiad i ddod i Brydain. Yn ôl Sam B King, un o'r teithwyr cyntaf

"It was thought that the early immigrants, given their background, 'didn't have a chance' in this civilised industrialised society, but our attitudes and beliefs... were the techniques of survival from the day we stepped off the Windrush..." / *"Y farn gyffredin oedd nad oedd gan y mewnfudwyr cynnar, oherwydd eu cefndir, 'fawr o obaith' yn y gymdeithas ddiwydiannol wâr hon, ond roedd ein hagweddau a'n credoau yn cynrychioli ein dulliau ni o oroesi o'r diwrnod hwnnw y gwnaethon ni gamu oddi ar y Windrush..."*
(Climbing Up the Rough Side of the Mountain Tudalen 251)



Mudwyr o'r Caribî yn cofrestru am waith h. Amgueddfa Rhyfel Imperialaidd

## Gweithgaredd:

**Ystyriwch y rhesymau pam y byddai pobl yn gadael gartref i setlo mewn gwlad arall.**

Cynhaliwch weithgaredd cysylltu geiriau o amgylch y geiriau ‘mewnfudo’ ac ‘allfudo’. Pa eiriau mae eich disgyblion yn eu cysylltu â’r ddau derm yma?

Ydy pobl yn gweld gwahaniaeth mawr rhwng y ddau? Gallech gynnig enghreifftiau go iawn o ddigwyddiadau diweddar yn y newyddion. Ydy un term yn cael ei weld yn ‘dda’ a’r llall yn ‘wael’? Cymharwch nhw â’r term mwy niwtral ‘mudo’.

Gan weithio mewn grwpiau bach, rhowch y cardiau ‘rhesymau dros fudo’ i’r myfyrwyr i ystyried beth yw’r rhesymau mwyaf tebygol y byddai pobl yn gadael gartref.

| | |
|---|---|
| **Am waith â thâl gwell** | **I ddod o hyd i waith** |
| **Bygythiad o drais oherwydd eich ethnigrwydd** | **Bygythiad o drais oherwydd eich credoau** |
| **Trychineb naturiol - er enghraifft daeargryn** | **Amodau’r tywydd - er enghraifft dim digon o law neu gorwynt** |
| **Rhyfel** | **Cnydau’n methu** |
| **Er lles y plant** | **Er mwyn ymuno ag aelodau eraill y teulu** |
| **Rydych yn cael eich gwahodd** | **Eich rheswm eich hun** |

Gan ddibynnu ar oedran eich disgyblion, gallech ofyn iddyn nhw greu eu rhesymau nhw eu hunain.

**Cysylltiadau â’r Cwricwlwm:** Cymraeg, Saesneg, Hanes, Dinasyddiaeth, addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd.

**Gwerthoedd y Gymanwlad:** Goddefgarwch, parch a dealltwriaeth, hawliau dynol.

**Sgiliau Craidd:** Dinasyddiaeth, meddwl yn feirniadol, arweinyddiaeth gan fyfyrwyr a datblygiad personol.

# Mudo mewn cyd-destun lleol

**Gallai hyn fod yn ddarn o ymchwil, tasg gwaith cartref, neu'n sail i brosiect. Y naill ffordd neu'r llall, gall gynnig cyfle i rannu gwybodaeth a syniadau ymhlith y disgyblion. Fel arall, os mai profiad cyfyngedig sydd gan y myfyrwyr o grwpiau sy'n mudo, gallech fachu ar y cyfle i gyflwyno rhai ffeithiau a ffigurau am grwpiau perthnasol i'ch rhanbarth chi e.e.**

- Faint o wledydd wyddoch chi amdanyn nhw lle mae grwpiau o fudwyr/lleiafrifoedd ethnig?
- Ydy pobl wedi cyrraedd neu adael eich gwlad chi? Beth oedd y rhesymau?
- Pa ffactorau sy'n ei gwneud hi'n haws neu'n anoddach i newydd-ddyfodiaid setlo mewn gwlad?
- Pa ffactorau sydd weithiau yn ei gwneud hi'n anodd i bobl mewn gwlad i groesawu newydd-ddyfodiaid?
- I ba raddau rydych chi'n credu y dylai pobl helpu unrhyw un mewn angen, waeth beth yw ei hil, lliw, ethnigrwydd, cenedligrwydd, diwylliant neu gredo?
- 'Mae hawliau dynol yn dod cyn pob hawl arall?' Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad yma Meddyliwch am yr amgylchiadau sy'n ei gwneud hi'n haws neu'n anoddach i weithredu ar y farn yma.

Yn dilyn unrhyw rai o'r gweithgareddau yma, gallech gyfnewid eich canfyddiadau a'ch safbwyntiau gyda'ch ysgol bartner gan ddefnyddio'ch dulliau cyfathrebu arferol.

Pa brofiadau sydd ganddyn nhw o fewnfudo, allfudo a mudo?

Oes ganddyn nhw farn debyg i'ch dysgwyr chi, neu a oes ganddyn nhw berspectif newydd ar y materion dan sylw?



Mudwyr o'r Caribî yn chwarae cardiau h. Amgueddfa Ryfel Imperialaidd

# Straeon mudo

## Galwad i weithredu

Mae mudwyr a'u disgynyddion wedi gwneud cyfraniad enfawr i'w gwledydd newydd, ac maen nhw'n parhau i wneud cyfraniad enfawr iddynt.

Dangoswch y faner a gynlluniwyd gan Pen Mendonca i'ch disgyblion. Mae'r faner yn dathlu straeon mudwyr - eu hysbryd a'u dewrder, eu disgwyliadau a'u gobeithion. Mae'r dyluniadau yn y bwa uwchben yn dod o Dde America, Y Môr Heddychol, Asia, gogledd a gorllewin Affrica.




Graffeg gan @MendoncaPen www.penmendonca.com

**Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol:**

- Beth allwch chi ei weld yn y gwaith graffeg?
- Pam rydych chi'n credu i'r artist ddewis cynnwys y delweddau yma?
- Sut mae mudo a mudwyr wedi cael eu cynrychioli?
- Beth fyddech chi'n ei ychwanegu at yr adrannau gwag i ddathlu effaith mudo a mudwyr yn eich gwlad chi?

Allwch chi ddylunio a chreu poster neu faner eich hun i ddathlu mudo yn eich gwlad chi? Tynnwch ffotograffau o'r canlyniadau a'u hanfon aton ni gyda'r hashnod #WindrushDay

## Gweithgareddau ychwanegol:

Roedd yr ymgyrch ddiweddar 'I am an Immigrant' ar drenau danddaearol Llundain yn dathlu mudwyr a'u cyfraniad at gymdeithas. Roedd y posteri yn dangos enw, gwlad enedigol a swydd y person ar y poster. Roedd un o ddyn tân Pwylaidd yn dweud 'Mewnfudwr ydw i. Ers saith mlynedd, dw i wedi bod yn achub bywydau, a gallech chi fod nesaf.' Roedd un arall yn dangos Bargyfreithiwr yn dweud, 'Mewnfudwr ydw i sydd wedi bod yn cefnogi hawliau dynol ac ymladd dros gyfiawnder ers 13 mlynedd.'

All eich disgyblion ddod o hyd i wybodaeth am fywydau a llwyddiannau pobl eraill sydd wedi ymgartrefu yn eich gwlad?



Y gymuned Jamaicaidd yn Llundain ddechreuodd carnifal Notting Hill. Erbyn hyn mae'n denu mwy na miliwn o bobl o gefndiroedd diwylliannol gwahanol bob blwyddyn. Llun h. polkadotsoph o dan Creative Commons.

**Gweithgareddau Ysgolion Partner:**

Os ydych yn gweithio gydag Ysgol Bartner, gallech:

- Rhannu eich straeon mudo, cerddi a safbwyntiau am fudo
- Cyfnewid eich cynlluniau i ddathlu cyfraniad mudwyr i'ch gwlad

# Mwy o wybodaeth

**Bydd y dolenni canlynol yn eich helpu i ddod o hyd i fwy am ddyfodiad yr Empire Windrush a straeon mudo eraill:**

Mae Sefydliad Windrush yn **www.windrushfoundation.org** yn dathlu cyfraniad y rhai a laniodd yn Nociau Tilbury, Essex, Lloegr ym mis Mehefin 1948 ar long yr Empire Windrush a chyfraniad y bobl Affro Caribiaidd a ymgartrefodd yma a'u disgynyddion at ffyniant a threftadaeth Prydain. Mae'r sefydliad yn gweithio i sicrhau nad ydyn nhw a'u straeon yn mynd yn angof.

Mae gan yr Archifau Gwladol ffynonellau gwreiddiol gan gynnwys trawsgrifiadau o restr teithwyr yr Empire Windrush yn dangos swyddi a gwlad breswyl rhai o'r teithwyr ar yr Empire Windrush.

**http://www.nationalarchives.gov.uk/education/resources/bound-for-britain/**

Mae **http://www.migrationmuseum.org** yn trefnu arddangosfeydd sy'n gysylltiedig â straeon mudo

Mae cyfweliad ag Oswald Dennison yma:
**http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/116061.stm**

Pecyn Ffoaduriaid British Council, Living Together
**https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/list/living-together**

Adnodd British Council Third Space and Queens of Syria
**https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/list/queens-syria**

Mae arddangosfa o waith ffotograffiaeth Simon Frederick o Brydeinwyr Du dylanwadol i'w gweld yn yr Oriel Portreadau Genedlaethol o fis Tachwedd 2018.

## Llyfrau darllen i blant:

- The Journey gan Francesca Sanna
- Coming to England gan Floella Benjamin
- Hope Leaves Jamaica gan Kate Ernest
- Ar gyfer athrawon – Windrush gan Mike Phillips a Trevor Phillips
- Adnodd Casineb Geiriol Ar-lein –
- **http://thecommonwealth.org/media/news/commonwealth-heads-government-statement**
- Gallwch weld mwy o enghreifftiau o waith Sophie Herxheimer yma: **http://www.sophieherxheimer.com/**

**© British Council 2018**
British Council yw sefydliad y Deyrnas Unedig dros gysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.

# Appendix

## Delwedd 1



## Delwedd 2



## Delwedd 3

